# Chwarae Rôl

Gellir cynnwys hyn yn y wers sy'n ymwneud â chamddefnydd ac effeithiau alcohol wedi'r mewnbwn ar gymorth cyntaf.

**Cyfranogion:**
Y Claf
Y lonciwr
Y Cerddwr sydd yn pasio
Gweithredwr radio



*Llun 1 Wedi'i ddylunio gan Freepik.com*

**Yr Olygfa**

Mae'r chwarae rôl yn digwydd mewn parc. Mae'r lonciwr yn y parc ac yn gweld nifer o oedolion ifanc yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth berson sy'n gorwedd ar y glaswellt.



*Llun 1 Wedi'i ddylunio gan Prostooleh-Freepik.com*

Mae'r lonciwr yn agosáu at y person hwn ac yn gweld ei fod tua 15 oed. Mae'r claf yn gorwedd ar ei gefn gyda nifer o boteli seidr gwag o'i gwmpas. Mae'r lonciwr yn gwirio fod y claf yn anadlu; ond mae'n gwneud sŵn gyrglio. Gan ddeall y gallai'r person ifanc fod yn tagu mae'r lonciwr yn galw am help wrth ei roi yn yr ystum adferol. Mae rhoi'r person yn yr ystum cywir yn atal y gyrglio.

Mae rhywun sy'n cerdded heibio yn clywed y floedd am help ac yn cynnig helpu.
Nid oes gan y lonciwr ffôn symudol. Mae gan yr cerddwr. Mae'r person hwn yn cysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans gan ddefnyddio'r gwasanaeth ffôn argyfwng 999.
Yna caiff yr helpwr y sgwrs ganlynol:


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

**Teleffonydd:** Pa wasanaeth argyfwng ydych chi ei angen?
**Helpwr:** Ambiwlans, ac ar frys.
**T:** Yn eich cysylltu nawr.
**Teleffonydd Ambiwlans:** Beth yw natur yr argyfwng?



Llun 2 Wedi'i ddylunio gan Prostooleh-Freepik.com

*Yna mae'r helpwr yn disgrifio beth sy'n digwydd (claf yn anymwybodol yn yr ystum adferol, personau eraill wedi rhedeg i ffwrdd, lleoliad y digwyddiad, rhesymau posibl dros gyflwr yr anafedig - poteli alcohol gwag). Bydd y teleffonydd angen gymaint o wybodaeth â phosibl.*

**TA:** A oes gan y claf unrhyw anafiadau amlwg?

**H:** Na

**TA:** A oes unrhyw berygl pellach i'r anafedig neu i bobl eraill?

**H:** Beth ydych chi'n feddwl?

**TA:** A oes unrhyw wydr wedi torri o amgylch yr claf?

**H:** Na

**TA:** A oes unrhyw arwydd bod ei ffrindiau'n dychwelyd?

**H:** Na

*Efallai bod hwn yn ymddangos yn gwestiwn od, ond pe byddent yn dychwelyd a'u bod dan ddylanwad alcohol gallai'r ffordd y byddant yn gweld y sefyllfa yn un afresymol. Gallent weld yr helpwyr fel bygythiad a bod yn anghyfeillgar tuag atynt. Mae eich diogelwch chi yr un mor bwysig â lles y claf.*



**Llun 4 Wedi'i ddylunio gan Rawpixel.com-Freepik.com**

**TA:** Mae ambiwlans ar ei ffordd ac fe fydd gyda chi ymhen dau funud. Bydd y Teleffonydd Ambiwlans yn cymryd manylion y galwr, a gaiff eu cofnodi gyda'r digwyddiad.

**Diwedd y chwarae rôl.**


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023